Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2014

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru**

Mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i dlodi yng Nghymru. Mae pedair elfen annibynnol i'r ymchwiliad. Bydd pob elfen yn canolbwyntio ar fater penodol, a bydd ganddi ei chylch gorchwyl penodol, ond gyda'i gilydd, bydd yr elfennau hyn yn creu un darn o waith yn ymwneud â'r maes hwn.

Er mwyn helpu â'r ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y cylch gorchwyl ar gyfer Elfen 1:

**Elfen 1: tlodi ac anghydraddoldeb**
Trafod:
- pa mor effeithiol y mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a strategaethau eraill y llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd;
- effeithiau tlodi, yn enwedig amddifadedd a thlodi eithafol, ar grwpiau gwahanol;
- sut y mae deddfwriaeth, polisïau a chyllidebau sydd wedi'u targedu at drechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb yn cael eu cydgysylltu a'u blaenoriaethu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8147
Ebost / Email : celg.committee@wales.gov.uk

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phump ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl fel y'i nodir uchod.
Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig (ni ddylai fod ar ffurf dogfen PDF yn ddelfrydol) i **Pwyllgor.CCLlL@cymru.gov.uk**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **12 Medi 2014**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr adolygiad. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8469

**Datgelu gwybodaeth**

Mae manylion am sut rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth yn http://www.cynulliadcymru.org/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Ystyriwch y manylion yma'n ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**
Cadeirydd